OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 2660

# Gorchymyn Deddf Iechyd (Cymru) 2003 (Cychwyn Rhif 1) 2003

**Y dyddiau a bennwyd ar gyfer darpariaethau ynglŷn â'r Cynghorau Iechyd Cymuned ac Arbedion**

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) 20 Hydref 2003 yw'r dydd a bennwyd i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf ddod i rym at bob diben —

(i) adran 1 ac Atodlen 1;

(ii) paragraffau 5, 14 ac 16 o Atodlen 3 ac adran 7(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â hwy; a

(iii) adran 7(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 4 heblawr cyfeiriad at adran 22(4) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth lechyd Gwladol a Phroffesiynnau Gofal Iechyd 2002.

(2) Dim ond ynglŷn â Chymru y mae'r darpariaethau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1) yn cael eu dwyn i rym.

(3) Er gwaethaf diddymu Atodlen 7 i Ddeddf 1977, bydd Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 1996(**1**) a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymdeithas y Cynghorau Iechyd Cymuned) 1977(**2**) yn parhau i gael effaith.

(**1**) OS 1996/640 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2000/479 (Cy.20).
(**2**) OS 1977/874.